**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD**
**7 RHAGFYR 2023**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd fel cyfarfod hybrid ddydd Iau, 7 Rhagfyr 2023.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Arnold Woolley (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Marion Bateman, Mel Buckley, Tina Claydon, Carol Ellis, Hilary McGuill, David Mackie, a Debbie Owen

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Gladys Healey

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr Dave Hughes a Paul Johnson

**DIRPRWY:** Y Cynghorydd Gina Maddison (ar ran y Cynghorydd Linda Thomas)

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Christine Jones (Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles); Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol); Uwch-Reolwr – Diogelu a Chomisiynu; Uwch-Reolwr ar gyfer Plant a Gweithlu, a Rheolwr Comisiynu

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol a'r Amgylchedd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 31. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Datganodd y Cynghorydd Hilary McGuill ei bod wedi defnyddio'r gwasanaeth Gofal a Thrwsio yn ddiweddar a datganodd y Cynghorydd Marion Bateman ei bod wedi defnyddio gwasanaethau NEWCES yn ddiweddar.

## 32. COFNODION

Cyfeiriodd y Cynghorydd Ellis at dudalen 8 y cofnodion lle'r oedd y Cynghorydd Paul Johnson wedi gofyn am gael gwneud diwygiad bach i'r argymhelliad a gofynnodd a oedd yr Aelodau wedi cael rhestr o'r gwasanaethau a oedd yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru, gan na fyddai pawb wedi bod yn ymwybodol o beth oeddent. Eglurodd nad oedd yn gweld y wybodaeth yn y papurau ac nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod a dywedodd os oedd argymhelliad am gael ei newid, dylai fod yr Aelodau wedi cael y wybodaeth ofynnol. Dywedodd yr Hwylusydd ei fod yn wahoddiad gan y Cynghorydd Johnson i'r Aelodau gyflwyno unrhyw syniadau yn dilyn y cyfarfod. Cadarnhaodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) yng nghyd-destun y cynigion a adroddwyd i'r Pwyllgor y tro diwethaf, y gwahoddwyd yr Aelodau i awgrymu syniadau ynglŷn ag arbedion cyllideb ar draws yr holl Bwyllgorau Craffu, ond roedd yn deall pwynt y Cynghorydd Ellis, sef bod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn wasanaeth cymhleth iawn ac yn ymateb i gyfrifoldebau statudol yn bennaf, gan wneud arbedion yn anodd iawn i'w canfod, ond ei bod yn syniad da i fod yn agored i unrhyw awgrymiadau. Mewn ymateb i'r Cynghorydd Bateman, a oedd yn cytuno gyda sylwadau'r Cynghorydd Ellis, gofynnodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog roi mwy o wybodaeth am waith statudol ac anstatudol. Dywedodd y Prif Swyddog bod mwyafrif sylweddol o ddarpariaeth Gwasanaethau Cymdeithasol

yn statudol ac fe awgrymodd, cyn i'r trafodaethau am y gyllideb ddod i ben, y byddai eglurhad yn cael ei roi o ran pa feysydd gwasanaeth oedd yn gwbl statudol, ac fe groesawyd hyn gan yr Aelodau.

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Hydref 2023, fel y'u cynigiwyd a'u heiliwyd gan y Cynghorwyr Dave Mackie a Mel Buckley.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

**33. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU**

Cyflwynodd Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol a'r Amgylchedd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol ac Olrhain Camau Gweithredu fel y nodwyd yn yr adroddiad a dywedodd wrth Aelodau bod y cwestiynau yr oeddent wedi'u hawgrymu wedi cael eu hanfon ymlaen at Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) er mwyn eu hystyried cyn y cyfarfod ym mis Ionawr. Gwahoddodd yr Aelodau i gyflwyno unrhyw eitemau eraill i'w cynnwys ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

Awgrymodd y Cynghorydd Bateman y dylai rheolwr hefyd fod yn bresennol yn y cyfarfod ym mis Ionawr i egluro ac o bosib i ddangos 'E-Ymgynghoriad'. Ychwanegodd nad oedd ymgynghoriadau dros yn ffôn yn addas i bawb a dywedodd y gellid sylwi ar bethau eraill wyneb yn wyneb yn hytrach na dros y ffôn. Cytunodd y Cynghorydd Maddison gyda hyn gan ychwanegu bod llawer iawn o bobl hŷn heb fynediad at gyfrifiaduron / y rhyngrwyd / ffonau symudol. Roedd yn ystyried bod E-Ymgynghoriad yn gwahaniaethu ar sail oedran ac roedd eisiau i BIPBC roi sicrwydd i Aelodau y gallai pobl hŷn, nad oedd ar-lein, gael ymgynghoriad wyneb yn wyneb. Cadarnhaodd yr Hwylusydd bod 'E-Ymgynghoriad' ar y rhestr o gwestiynau i'w cyflwyno i BIPBC yng nghyfarfod mis Ionawr ac y byddai'n anfon y sylwadau ychwanegol at BIPBC, fodd bynnag ni allai orchymyn bod un yn mynychu.

Gofynnodd y Cynghorydd McGuill i gael cynnwys y cynnydd a oedd wedi cael ei wneud yn sefydliadau preswyl y Cyngor pan yr oedd y Lleoliadau Tu Allan i'r Sir yn cael eu hadolygu. Cytunodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) a dywedodd y byddent yn gwneud hynny pan oedd yr eitem yn cael ei hystyried yn y cyfarfod ar y cyd ym mis Mehefin 2024.

Mynegodd y Cynghorydd Ellis bryderon nad oedd pobl yn wardiau ochr yr Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys yn cael bwyd a diod, weithiau am ddyddiau, ac roedd eisiau codi'r mater gyda BIPBC yn y cyfarfod ym mis Ionawr a dywedodd y Cadeirydd y byddai hyn yn cael ei nodi.

Cyfeiriodd yr Hwylusydd at Olrhain Camau Gweithredu a dywedodd fod rhai o'r eitemau yn dal i fynd rhagddynt ac y byddai'n ymateb i Aelodau pan yr oedd ganddi fwy o wybodaeth. Cadarnhaodd bod Lleoliadau Tu Allan i'r Sir wedi cael ei ychwanegu at y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol er mwyn ystyried hyn yn y cyfarfod ar y cyd ar 27 Mehefin ac y byddai'r sylw blaenorol a wnaed gan y Cynghorydd McGuill yn cael ei drafod.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Dave Mackie a Debbie Owen.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol;

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r camau gweithredu gofynnol.

## 34. ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN AR BERFFORMIAD CYNLLUN Y CYNGOR 2023-24

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) yr adroddiad canol blwyddyn ar berfformiad ar draws y Cyngor cyfan, gyda'r tabl yn adran 1.04 yn cynnwys pob portffolio. Dywedodd mai'r atodiad oedd fwyaf perthnasol i'r Pwyllgor hwn a'r is-faes perthnasol oedd Lles Personol a Chymunedol a oedd â statws COG gwyrdd o 90% a statws COG coch o 10% ac o ran Lles roedd statws COG gwyrdd o 85% a statws COG coch o 15%. Tynnodd sylw at rai mesurau fel a osodwyd yn yr atodiadau.

Mewn ymateb i sylw gan y Cynghorydd Debbie Owen, dywedodd y Prif Swyddog fod rhai blaenoriaethau yn cael eu cefnogi gan fwy nag un portffolio ac er nad oedd yn gyfrifoldeb ar Wasanaethau Cymdeithasol, roedd y maes cyffredinol o amgylchedd lleol glân, diogel gyda chysylltiadau da yn dod o dan y maes perfformiad.

Gofynnodd y Cynghorydd McGuill gwestiynau ynghylch gofal mewnol a recriwtio staff. Eglurodd y Prif Swyddog fod y ddarpariaeth fewnol yn cynnwys llu o wasanaethau, roedd llawer ohonynt wedi'u rheoleiddio ac felly roedd arnynt angen y staff gofynnol i ddarparu'r gwasanaeth ac roedd yr archwiliadau wedi'u rheoleiddio wedi cadarnhau bod ganddynt ddigon o staff i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da yn y meysydd hynny. Fodd bynnag, nid oedd ganddo'r union nifer o swyddi gwag ond byddai'n darparu'r ffigwr ar ôl y cyfarfod. Fe ychwanegodd fod recriwtio wedi gwella ers y pandemig.

Mewn ymateb i ail gwestiwn y Cynghorydd McGuill ynglŷn â phlant yn gadael gofal a'r sefyllfa dai, dywedodd y Prif Swyddog nad oedd ganddo'r wybodaeth benodol am y rhai sy'n gadael gofal ond cytunodd ei fod yn faes pryderus yr oeddent yn ei ystyried. Dywedodd fod gan ddigartrefedd broblemau y tu allan i Sir y Fflint ac roedd yn bryder mawr yn genedlaethol ac fe gytunodd ei bod yn iawn i'w nodi. Dywedodd hefyd fod y portffolio wedi cynnal cyfarfodydd ar y cyd â Thai ac y byddai llety ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal yn flaenoriaeth mewn cyd-gyfarfod yn y dyfodol.

Wrth ymateb i'r Cynghorydd Mackie, eglurodd y Prif Swyddog bod y targed Taliad Uniongyrchol ar gyfer y flwyddyn ond ei fod wedi ei gymhwyso i'r cyfnod hwn oherwydd ei fod yn ganran ac roedd y perfformiad ar gyfer y cyfnod ac nid y

flwyddyn lawn.  Cytunodd gyda'r hyn a ddywedodd am y dyraniad o 12.7% ar gyfer Taliadau Uniongyrchol i Bobl Hŷn ond dywedodd ei fod yn adlewyrchu'r sefyllfa yn genedlaethol oherwydd natur y gefnogaeth a ddarperir i bobl hŷn. Fodd bynnag, nid oedd i gyd yn hirdymor fel categorïau eraill ac roedd yn tueddu i ddenu canran lai o bobl a oedd eisiau taliadau uniongyrchol o'i gymharu â phobl ag anableddau gydol oes a oedd â mwy o daliadau uniongyrchol.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Mel Buckley a Tina Claydon.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

(a) Bod yr Aelodau yn cefnogi'r lefelau o gynnydd a hyder o ran cyflawni'r blaenoriaethau a fanylwyd yng Nghynllun y Cyngor 2023/28 i'w cyflawni o fewn 2023/24;

(b) Bod yr Aelodau yn cefnogi perfformiad cyffredinol yn erbyn mesurau / dangosyddion perfformiad Cynllun y Cyngor 2023/24; a

(c) Bod yr Aelodau'n cael sicrwydd drwy'r eglurhad a roddwyd ar gyfer y meysydd sy'n tangyflawni.

## 35. <u>COMISIYNU GOFAL CYMDEITHASOL</u>

Dywedodd yr Uwch-Reolwr - Diogelu a Chomisiynu bod yr adroddiad hwn wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor i adrodd ar weithgarwch Cytundeb Gofal Cartref Gogledd Cymru a'r fframwaith a oedd wrthi'n cael ei ddatblygu, gan nodi bod comisiynu yn rhan fawr o'r gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cyflwynodd y Rheolwr Comisiynu wybodaeth gefndir i'r adroddiad cyn manylu ar y Cytundeb Gofal Cartref gan nodi bod Comisiynu yn weithgaredd cylchol i asesu anghenion ei boblogaeth leol o ran gwasanaethau gofal a chefnogaeth.  Eglurodd bod Cytundeb Gofal Cartref Gogledd Cymru yn brosiect rhwng y chwe awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a oedd wedi bod yn weithredol ers 2018 ac y byddai'n dod i ben ar 31 Mawrth 2025 a bod gwaith wedi dechrau i gwblhau'r cylch. Roedd y cytundeb yn rhestr o ddarparwyr a oedd wedi dangos eu gallu a'u cymhwysedd i ddarparu gofal cartref a oedd yn caniatáu iddynt brynu lleoliadau. Roedd y Cytundeb presennol yn cynnwys Gwasanaethau Gofal Cartref ar gyfer oedolion yn unig ond oherwydd ei lwyddiant, byddai'r broses ail-dendro yn cael ei hymestyn i gynnwys Gwasanaethau Gofal Cartref i Blant / Pobl Ifanc / Oedolion a'u Teuluoedd / Gofalwyr a Phobl Hŷn.

Mewn ymateb i gwestiwn y Cynghorydd McGuill, cadarnhaodd y Rheolwr Comisiynu bod 13 o Gartrefi Preswyl i Blant a Phobl Ifanc wedi'u cofrestru a oedd yn cynnwys cartrefi mewnol newydd.  O ran nifer presennol y Lleoliadau Tu Allan i'r Sir ar gyfer plant, dywedodd yr Uwch-Reolwr (Plant a'r Gweithlu) bod oddeutu 40 o blant mewn gofal preswyl fel arfer a byddai rhai ohonynt wedi'u lleoli yn yr 13 o gartrefi yn Sir y Fflint, ond rhoddodd sicrwydd bod yr holl blant mewn cartrefi cofrestredig ac y byddai'r data tu allan i'r sir yn cael ei ddarparu.

Cwestiynodd y Cynghorydd Owen y gwahaniaeth rhwng lleoedd wedi’u cofrestru a lleoedd heb eu cofrestru. Dywedodd y Rheolwr Comisiynu mai’r gwahaniaeth oedd bod lleoedd cofrestredig yn cael eu cofrestru a’u harolygu gan Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol - Arolygiaeth Gofal Cymru. Rhoddodd enghraifft o Ofalwyr Micro heb eu cofrestru gan ddweud, er eu bod yn darparu gwasanaeth rheoledig, nid oedd yn ofynnol iddynt fod wedi cofrestru cyn belled â’u bod ond yn darparu gwasanaeth i bedwar unigolyn neu lai.

Holodd y Cynghorydd Mackie gwestiwn ynglŷn â gofyniad Llywodraeth Cymru a oedd yn nodi nad oedd darparwyr gwasanaeth yn cael gwneud elw a gofynnodd a oedd hyn yn cael unrhyw effaith ar Sir y Fflint ac os oedd unrhyw bryderon mewn perthynas â hyn. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Comisiynu fod hyn yn cael effaith ac, hyd yma, roedd y ffocws wedi bod ar Wasanaethau Plant ond roedd dyheadau i ymestyn hynny. Eglurodd bod rhai darparwyr yn dewis camu’n ôl o wasanaethau yng Nghymru o ganlyniad i’r fenter a oedd yn cynnwys gwasanaeth a oedd eisoes wedi cau yn Sir y Fflint, ond roedd darparwyr eraill yn ystyried hyn yn gadarnhaol ac yn trawsnewid eu model busnes i sefydliad nid er elw. Ychwanegodd nad oedd yn ystyried hyn yn rhywbeth negyddol oherwydd bod ganddynt gynllun mewn lle, gan roi enghraifft o ddatblygu gwasanaethau mewnol i liniaru rhai a oedd yn gadael y farchnad. Roedd yn pryderu oherwydd, yn genedlaethol, roedd ofn y byddai menter Llywodraeth Cymru yn cael effaith negyddol ar y sector a oedd eisoes mewn argyfwng.

Ychwanegodd yr Uwch-Reolwr - Diogelu a Chomisiynu y byddai’r newidiadau yn dod i rym yn 2027 a bod trafodaethau eisoes wedi dechrau gyda’u darparwyr gofal a gyda chefnogaeth yr Aelodau, roedd y Cyngor wedi bod yn rhagweithiol iawn o ran darparu gwasanaethau preswyl mewnol.

Cafodd yr argymhellion eu cynnig gan y Cynghorydd Hilary McGuill a’u heilio gan y Cynghorydd Debbie Owen.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod yr Aelodau’n nodi gwaith y tîm contractau a chomisiynu a nifer y gwasanaethau maent yn eu cefnogi a’u datblygu yn Sir y Fflint a thu allan i’r sir; a

(b) Bod yr Aelodau’n nodi’r gwaith cynllunio sy’n cael ei wneud ar gyfer y cytundeb fframwaith gofal cartref rhanbarthol newydd sydd ei angen i ddisodli’r fframwaith cyfredol a fydd yn weithredol hyd at 31 Mawrth 2025.

**ER GWYBODAETH**

Rhannwyd fideo yn dangos yr arferion arloesol a rhagoriaeth ar draws Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint gyda’r Pwyllgor.

## 36. AELODAU O’R WASG YN BRESENNOL

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 3.27pm)

………………………………..
**Cadeirydd**